



Gwasanaeth Effeithiolrwydd a
Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru

Regional School Effectiveness &
Improvement Service for North Wales

Bwletin GwE

Categoriadau Cenedlaethol ★NEWYDD★

DIWEDDARIAD I'R CATEGOREIDDIO CENEDLAETHOL

Mae'r **llythyr yma** gan Lywodraeth Cymru yn hysbysu ysgolion o'r newidiadau i'r categoriadau cenedlaethol ac yn nodi na fydd Cam 1 yn cael ei gyhoeddi eleni. Mae'r Grŵp Ansawdd a Safoni hefyd wedi cyfarfod i ddiwygio'r **ddogfen ganllaw** ar gyfer 2017-18. I weld yr amserlen ar gyfer eleni ac am ragor o wybodaeth, **[cliciwch yma](#)**.

Cyfleoedd gyda GwE

[Ymgynghorydd Her \(Mathemateg\)](#)

[Cliciwch yma](#) i weld yr hysbyseb.

DYDDIAD CAU: 10:00 O'R GLOCH, DYDD IAU, 19 HYDREF 2017

Rhaglen Datblygu ar gyfer Penaethiaid

PROFIAD ARWEINYDDIAETH I BENAETHIAID (CYNRADD,
UWCHRADD AC ARBENNIG)

[Cliciwch yma](#) am wybodaeth am y rhaglen ddatblygu i
Benaethiaid a gynhelir y tymor hwn.

Er mwyn datgan eich diddordeb mewn bod yn rhan o'r
hyfforddiant, cysylltwch â Ceri Siân Kenrick erbyn **12:00yp**,
[Dydd Llun, 16 Hydref 2017](#).

Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)

[Hyfforddiant i Athrawon Newydd Gymhwyso \(ANG\)](#)

[Cliciwch yma](#) am wybodaeth am hyfforddiant yn eich
Awdurdod.

Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru

YR WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y SYSTEM
GENEDLAETHOL AR GYFER CATEGOREIDDIO YSGOLION

Mae gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer system
atebolrwydd addysg yn un deg, gydlynol, gymesur,
dryloyw ac mae'n seiliedig ar ein gwerthoedd cyffredin ar
gyfer addysg yng Nghymru.

[Parhewch i ddarllen yma](#).

Canllawiau ar gyfer Lleihau

Gwybodaeth i Ysgolion Cynradd

[Cymhwysedd Digidol](#) ★NEWYDD★

DYDDIADAU A LLEOLIADAU AMRYWIOL

Cyrsiau Rhyngweithio a Chydweithio yn CA2 –**[cofrestrwch yma](#)**.

Rhagor o gyrsiau i ddilyn!

[Datblygiad Proffesiynol ar gyfer holl Athrawon y Cyfnod Sylfaen](#)

DEALL CYSYNIADAU MATHEMATEGOL YN Y CYFNOD
SYLFAEN, GARETH METCALFE

Bydd Gareth Metcalfe yn cynnal gweithdai mathemateg yn
ystod Tymor yr Hydref 2017, a Thymor y Gwanwyn 2018.

Bydd y gweithdai am ddim i holl athrawon y CS.

Bydd y gweithdai yn ddau sesiwn hanner diwrnod, i'w
mynychu gan yr un athro, ac fe'u cynhelir o fewn rhyw fis
i'w gilydd. Bydd llefydd yn gyfyngedig i un athro o bob
ysgol, yn y lle cyntaf.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

[Hyfforddiant 'Creadigrwydd yn y Cyfnod Sylfaen'](#)

DYDDIADAU A LLEOLIADAU AMRYWIOL

Am ragor o fanylion, **[cliciwch yma](#)**.

I gofrestru, cysylltwch â **helen@mentermon.com**

[Gweithdai a Chyfarfod Dyfal Donc a/neu Catch Up](#)

DYDDIADAU A LLEOLIADAU AMRYWIOL

Ar gyfer rhai sydd eisoes wedi cael hyfforddiant i gyflwyno
Catch Up a/neu Dyfal Donc.

[Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth.

[Cystadleuaeth Creu Poster Golchi Dwylo](#) ★NEWYDD★

I gyd-fynd â Diwrnod Golchi Dwylo Byd-eang (15 Hydref)
ac **Wythnos Atal Heintiau (16-22 Hydref)**, bydd Iechyd

Llwyth Gwaith Athrawon

Mae GwE yn cefnogi'n llawn y [canllawiau](#) a lansiwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams, a Phrif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg, Meilyr Rowlands, 14 Medi, 2017.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion ac i [lawrlwytho poster](#) ar gyfer yr ystafell athrawon.

Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig – 2018

Lansiwyd y Fenter ym 1990, dan nawdd y Sefydliad Materion Cymreig. Y nod yw annog pobl ifanc mewn ysgolion yng Nghymru i ymddiddori mwy yn eu treftadaeth ac yng nghyfraniad eu teuluoedd a'u cymunedau at y dreftadaeth honno. Mae'r Fenter yn cynnal cystadleuaeth flynyddol ar gyfer projectau treftadaeth yn ysgolion Cymru. Am ragor o fanylion, cliciwch [yma](#).

COFRESTRU CEISIADAU ERBYN: 2 CHWFROR 2018

Holiadur Tlodi ac Addysg

YMCHWILIO I FFACTORAU AC EFFEITHIAU TLODI AC UNIGEDD GWLEDIG AR GYFLAWNIADAU ADDYSGOL

Mae Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor yn cynnal ymchwil a gomisiynwyd gan ERW a GwE i ymchwilio, adolygu a dadansoddi effeithiau tlodi ac unigedd gwledig ar ganlyniadau addysgol.

[Cliciwch yma](#) i gymryd rhan.

Cais gan Cymwysterau Cymru

Ar hyn o bryd, mae Cymwysterau Cymru yn adolygu cymwysterau TGAU a Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol mewn TGCh y mae disgyblion yng Nghymru yn astudio ar eu cyfer, yn ogystal â'r sgiliau y maent yn eu datblygu cyn dechrau gyrfa ym maes TGCh. I gael rhagor o wybodaeth am yr adolygiad, a dolen i'r arolygon, ewch i'w [gwefan](#).

DYDDIAD CAU'R AROLYGON: DYDD GWENER, 17 TACHWEDD 2017

Campau Mes 2017 ★NEWYDD★

Gwahoddir grwpiau addysg o Gymru gyfan i gasglu mes o'r amgylchedd naturiol gwych sydd ar garreg ein drws a chysylltu â'r amgylchedd hwnnw a dysgu amdano. [Parhau i ddarllen...](#)

Cyhoeddus Cymru yn cynnal cystadleuaeth poster golchi dwylo ar gyfer dysgwyr rhwng 5-11 oed yng Nghymru!

[Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth.

DYDDIAD CAU: 24 TACHWEDD 2017

Cwrs Cyswllt â Byd Natur

DYDD MAWRTH, 24 HYDREF 2017 – PARC EIRIAS, CONWY, LL29 7SP

Mae Techniquet / Dysgu STEM, mewn partneriaeth â thîm Addysg Cyfoeth Naturiol Cymru, yn cynnig cyfle i athrawon Cyfnod Sylfaen fynychu cwrs undydd i archwilio gweithgareddau er mwyn datblygu eich hyder mewn dysgu am fyd natur gyda'ch disgyblion.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Trefniadau ar gyfer Cynnal Asesiadau Diwedd Cyfnod Sylfaen 2017-2018

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad ar drefniadau cynnal asesiadau diwedd Cyfnod Sylfaen 2017-2018. [Cliciwch yma](#) i ddarllen y datganiad.

Gwybodaeth i Ysgolion Uwchradd

[Cyfarfod Rhwydwaith Saesneg Lleol](#)

- **Dydd Llun, 16 Hydref 2017** - Sir y Fflint / Wrecsam
- **Dydd Mawrth, 17 Hydref 2017** - Môn / Gwynedd / Conwy / Sir Ddinbych

[Cliciwch yma](#), am ragor o fanylion neu cysylltwch â Gaynormurphy@gwegogledd.cymru, Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Saesneg.

[Mathemateg Uwchradd](#)

HYFFORDDIANT GAN YR MEI YNG NGOGLEDD CYMRU

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).

(Ymddiheurwn nad yw'r hysbyseb ar gael yn y Gymraeg)

Digwyddiadau

Cynhadledd Alps Gogedd Cymru 2017 ★NEWYDD★

DYDD GWENER, 20 HYDREF 2017 – CANOLFAN YR OPTIC, PARC BUSNES LLANELWY, LL17 OJD

Gweler [yma](#) fanylion y dydd.

Cynhadledd Iechyd a Lles ★NEWYDD★

DYDD GWENER, 27 HYDREF – YSGOL ARBENIGOL PEN COCH, Y FFLINT

Am ragor o fanylion ac i gofrestru, [cliciwch yma](#).

(Ymddiheurwn nad yw'r hysbyseb ar gael yn y Gymraeg)

'Mantell yr Arbenigwr' [Mantle of the Expert] ★NEWYDD★

DYDDIADAU A LLEOLIADAU AMRYWIOL

Hyfforddiant undydd ar gyfer cydweithwyr Cynradd a chyfnod allweddol 3 ar y dull dysgu ac addysgu cyffrous hwn yn seiliedig ar ymholi dramatig.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion. I gofrestru, cysylltwch â cerisiankenrick@gwegogledd.cymru

Cyfarfod Cydlynwyr Llythrennedd Cynradd ac Uwchradd Rhanbarthol

DYDD LLUN, 20 TACHWEDD 2017 – VENUE CYMRU, LLANDUDNO – 9:15YB-3:30YP

Awgrymir mai'r Cydlynnydd Llythrennedd a/neu'r cyswllt UDA sy'n mynychu'r cwrs hwn.

[Cliciwch yma](#), am ragor o fanylion. I gofrestru, dilynwch y [ddolen hon](#)

Hyfforddiant Ymlyniad a Thrawma ★NEWYDD★

DYDDIADAU A LLEOLIADAU AMRYWIOL

Bydd Braveheart Education yn cyflwyno Trawma Datblygiadol ac Ymlyniad, gyda gwaith ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth ymarferol.

Am ragor o fanylion ac i gofrestru, [cliciwch yma](#).

NODWCH FOD DEUNYDDIAU'R CYRSIAU CANLYNOL AR GAEL YN DDWYIEITHOG OND BYDD Y CYRSIAU'N CAEL EU CYFLWYNO DRWY GYFRWNG Y SAESNEG YN UNIG.

Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter



GwEGogledd.Cymru

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n [gwefan](#)

